# RHYBUDD STATUDOL I GYNYDDU'R CAPASITI YN YSGOL PENYFFORDD, PARC CRESCENT, PENYFFORDD, GER CAER, SIR Y FFLINT, CH4 0HE

## CYNGOR SIR Y FFLINT

Rhoddir rhybudd yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, a Chod Trefniadaeth Ysgolion bod Cyngor Sir y Fflint yn Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF ("yr Awdurdod Lleol"), wedi ymgynghori â'r unigolion gofynnol, yn cynnig addasu Ysgol Penyffordd, Parc Crescent, Penyffordd, ger Caer, Sir y Fflint, CH4 0HE, er mwyn

- **Cynyddu capasiti Ysgol Penyffordd o'r ddarpariaeth ar hyn o bryd, sef 315 o leoedd llawn amser yn yr ysgol, i 375 o leoedd llawn amser o 1 Medi 2023 ymlaen.**

Mae Ysgol Penyffordd yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg a gynhelir ar hyn o bryd gan Gyngor Sir y Fflint.

Cynhaliodd yr Awdurdod Lleol gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, ymatebion y cynigydd, ac ymateb llawn gan Estyn ar gael ar www.siryfflint.gov.uk, neu gallwch ofyn am gopi drwy anfon e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Bwriedir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2023.

Nifer presennol y disgyblion llawn amser (4 - 11 oed) yn yr ysgol yw 291. Mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cynyddu capasiti Ysgol Penyffordd o'r ddarpariaeth ar hyn o bryd, sef 315 o leoedd llawn amser yn yr ysgol, i 375 o leoedd llawn amser – cynnydd o 60 o leoedd llawn amser o 1 Medi 2023 ymlaen.

Byddai'r cynnydd yn y capasiti'n cael ei ddarparu drwy godi estyniad ar adeilad presennol yr ysgol ar gyfer dwy ystafell ddosbarth. Y bwriad fydd cyflwyno capasiti newydd yr ysgol ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau erbyn 1 Medi 2023.

Byddai'r cynnig yn golygu y byddai nifer derbyn yr ysgol ar gyfer disgyblion llawn amser (plant 4-11 oed) yn cynyddu o 45 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn i 50 disgybl ym mhob un. Bydd 23 Lle Meithrin.

Ymdrinnir â threfniadau mynediad yn unol â Pholisi Mynediad yr Awdurdod Lleol. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dewis ar sail dawn na system bandio disgyblion.

Ymdrinnir â chludiant ar gyfer disgyblion drwy gyfeirio at Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddir y cynnig, mae hyn yn golygu y gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig erbyn **27 Hydref 2022**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk neu'n ysgrifenedig at Claire Homard, Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid**,** Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF.

Nodwch y byddai'n ddefnyddiol pe bai unrhyw wrthwynebiad a anfonir drwy e-bost neu drwy'r post yn cynnwys enw llawn a chyfeiriad post y sawl sy'n gwrthwynebu.



**Claire Homard**

**Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid**
**Ar ran Cyngor Sir y Fflint**

**Dyddiedig: 29.09.2022**

**NODYN ESBONIADOL;**

Nid yw'r nodyn hwn yn ffurfio rhan o'r rhybudd statudol, ond bwriedir iddo esbonio'i ddiben Cyffredinol.

1. Mae Cyngor Sir y Fflint, sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Addysg Lleol, yn bwriadu cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Penyffordd, Penyffordd o 1 Medi 2023 ymlaen.

2. Bydd hyn yn golygu adeiladu estyniad ar adeilad presennol yr ysgol ar gyfer dwy ystafell ddosbarth a fydd yn barod erbyn y dyddiad hwnnw.

3. Gwneir trefniadau i sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn yr ysgol yn ystod y gwaith adeiladu.

4. Yn 2019 fe drosglwyddodd y Cyngor adeilad ysgol newydd i Ysgol Penyffordd yn dilyn proses caniatâd cynllunio a rhaglen adeiladu fanwl. Roedd adeilad newydd yr ysgol yn galluogi'r Cyngor i gynyddu capasiti disgyblion Ysgol Penyffordd o 259 i 315 o ddisgyblion llawn amser. Dyluniwyd yr adeilad ysgol newydd i gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd o ehangu yn y dyfodol er mwyn cynyddu'r capasiti ymhellach ar gyfer 375 o ddisgyblion llawn amser.

5. Bydd capasiti'r ysgol yn cynyddu o'i darpariaeth bresennol sef 315 o leoedd llawn amser yn yr ysgol i 375 o leoedd llawn amser, sef cynnydd o 60 lle llawn amser o 1 Medi 2023. Bydd 23 Lle Meithrin. Bydd y cynnydd hwn mewn capasiti'n ateb y galw cynyddol am leoedd yn yr ysgol a ddaw oddi mewn i'r ardal.

6. Bydd trefniadau Cludiant a Derbyniadau'n unol â pholisïau cyffredinol Cyngor Sir y Fflint.

7. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynigion gan y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF. Rhif ffôn: 01352 702188 / 704015. E-bost: 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk